Beibl i Blant
yn cyflwyno

Pedwar deg o flynyddoedd



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Lyn Doerksen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.



Pan achubodd Duw'r Israeliaid o'r Aifft, arweiniodd Moses y bobl mewn addoliad. Ysgrifennodd gân o fawl i Dduw, "Dw i am ganu i'r ARGLWYDD a dathlu ei fuddugoliaeth." Canodd Moses am yr holl bethau mawr roedd Duw wedi eu gwneud dros Israel.

HALELWIA!

MAWL I DDUW!



Ar ôl tri diwrnod yn yr anialwch daeth y bobl sychedig ar draws bwll o ddŵr. Ond roedd hi'n amhosib yfed achos bod y dŵr yn chwerw. Yn lle gweddïo, fe wnaeth y bobl gwyno.
Gan ei fod yn garedig, fe wnaeth Duw y dŵr yn dda i'w yfed.



Roedd y bobl fel petaent yn cwyno am bopeth. "Roedd gennon ni fwyd yn yr Aifft. Fe wnawn ni farw o newyn yn yr anialwch," medden nhw. Anfonodd Duw adar o'r enw soflieir y noson honno.
Roedd y bobl yn gallu eu dal yn hawdd.



Y bore wedyn, anfonodd Duw fwyd o'r enw manna – rhyw fath o fara oedd yn blasu fel mêl.

Byddai'r manna ar y ddaear bob bore yn barod i'w gasglu. Dyma sut roddodd Duw fwyd i'r bobl yn yr anialwch.

Roedden nhw i ymddiried yn Nuw am fwyd bob dydd. Ond fe wnaeth rhai gasglu mwy o fanna nag oedd ei angen, er bod Duw wedi dweud y byddai'n mynd yn ddrwg dros nos.



A dyna ddigwyddodd, roedd manna ddoe yn llawn o gynrhon – ond nid ar y Saboth. Roedd y seithfed dydd yn sbesial. Byddai'r bobl yn gorffwyso ac yn bwyta'r manna a gasglwyd y diwrnod cynt.



Gofalodd Duw am yr
Israeliaid yn yr anialwch.
Rhoddodd fwyd a
dŵr iddyn nhw –
a'u hamddiffyn
rhag unrhyw
elynion.

Pan ymosododd yr Amaleciaid, roedd yr Israeliaid yn ennill, dim ond i Moses godi'r ffon gafodd gan Dduw yn uchel.



Dywedodd Duw wrth yr Israeliaid, "Os wnewch chi ufuddhau i mi, fe fyddwch yn bobl arbennig i mi." "Fe wnawn ni wrando arnat ti," dywedodd yr Israeliaid wrth Moses. Daethon nhw at droed Mynydd Sinai, ac aros yno tra bod Moses yn cyfarfod gyda Duw.

Arhosodd Moses ar y mynydd gyda Duw am bedwar deg diwrnod. Ysgrifennodd Duw y Deg Gorchymyn ar ddwy lechen. Eglurodd wrth Moses sut roedd e am i'w bobl fyw.

1. “Does dim duwiau eraill i fod gen ti, dim ond fi.”

2. “Paid cerfio eilun na phlygu i lawr a’i addoli.”

3. “Paid camddefnyddio enw'r ARGLWYDD dy Dduw.”

4. “Cofia gadw'r dydd Saboth yn sbesial.”

5. “Rhaid i ti barchu dy dad a dy fam.”

6. “Paid llofruddio.”

7. “Paid godinebu.”

8. “Paid dwyn.”

9. “Paid dweud celwydd.”

10. “Paid chwennych (bod yn genfigennus).”



Tra roedd Moses ar Fynydd Sinai gyda Duw, fe wnaeth yr Israeliaid rywbeth ofnadwy – gorchymyn i Aaron wneud llo aur, ac fe wnaethon nhw addoli'r llo yn lle Duw. Roedd Duw yn ddig iawn – a Moses hefyd.

Pan welodd Moses y llo a'r bobl yn dawnsio, dyma fe'n torri'r llechi yn deilchion ar lawr. Yn ei ddicter, dinistriodd Moses y llo aur. Lladdodd y bobl ddrwg oedd yn ei addoli.

Rhoddodd Duw ddwy lechen newydd. Dywedodd wrth Moses am adeiladu Tabernacl – pabell fawr wedi ei hamgylchynu gan ffens. Byddai Duw yn byw yma gyda'i bobl. Roeddent i addoli Duw yno. Daeth colofn o fwg ac o dân i ddangos bod Duw gyda nhw.



Wrth iddyn nhw nesáu at wlad Canaan, anfonodd Moses ddeuddeg o ysbiwyr i weld y wlad roedd Duw wedi ei haddo i'w bobl.

Cytunodd yr ysbiwyr fod y wlad yn hardd! Ond dim ond dau, Joshua a Caleb, gredodd y bydden nhw'n gallu ennill y wlad gyda help Duw.

Roedd y dinasoedd cryf
a'r bobl oedd yn fawr
fel cewri yn gwneud
i'r deg ysbïwr ofni.
"Allwn ni ddim
ennill y wlad,"
oedd eu cwyn.

Roedden nhw
wedi anghofio
beth oedd Duw
wedi ei wneud
i'w rhyddhau
o'r Aifft.

Fe wnaeth y bobl ddilyn esiampl y deg ysbïwr oedd heb ffydd. Dyma nhw'n wylo a pharatoi i fynd nôl i'r Aifft. Fe wnaethon nhw hyd yn oed drio lladd Moses!



Achubodd Duw fywyd Moses, ac yna dywedodd wrth y bobl, "Fe fyddwch chi'n crwydro yn yr anialwch am bedwar deg o flynyddoedd. Dim ond Caleb, Joshua a'ch plant fydd yn byw'n ddigon hir i gyrraedd y wlad."



Pedwar deg o flynyddoedd

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Exodus 15 i Numeri 14

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16